Amodau Trwydded Asiant

Mesurau Diogelu Busnes

Mae'r canllaw hwn yn rhoi:

- disgrifiad o bob un o'r mesurau diogelu busnes a'r gofynion trwydded perthnasol,
- rhestr o ddarparwyr, a
- gwybodaeth am yr amgylchiadau lle gellir gwneud cais am eithriad i'r gofyniad i gael a chynnal mesurau diogelu busnes.

Trosolwg

Mae gan bob trwydded a roddir gan Rhentu Doeth Cymru gyfres o amodau trwydded y bydd angen i'r trwyddedai gadw atynt drwy gydol cyfnod y drwydded.

Gellir dod o hyd i'r setiau safonol o amodau trwydded a ddefnyddir fel fframwaith i benderfynu pa amodau trwydded y dylid eu hychwanegu at bob trwydded ar dudalen adnoddau gwefan Rhentu Doeth Cymru o dan 'Trwyddedu'.

Bydd pob trwydded **asiant** a roddir yn cynnwys yr amod trwydded 'Cael a Chynnal Mesurau Diogelu Busnes'.*

Mae'r amod trwydded 'Cael a Chynnal Mesurau Diogelu Busnes' yn ei wneud yn ofynnol i **bob** asiant sydd wedi'i drwyddedu gyda Rhentu Doeth Cymru gael a chynnal y canlynol trwy gydol cyfnod ei drwydded:

- Diogelu Arian Cleientiaid (lle caiff arian cleientiaid eu trin),
- Yswiriant Indemniad Proffesiynol (lefel yswiriant yn seiliedig ar faint portffolio, mae manylion ar dudalen 3), ac
- Aelodaeth o Gynllun Gwneud Iawn Gosod a Rheoli Annibynnol (fel y'i derbynnir gan Rhentu Doeth Cymru).

Trwyddedau Asiant

Byddai trwydded asiant yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n cyflawni gweithgareddau gosod a/neu reoli ar ran landlord.
Gallai asiant fod yn unigolyn neu'n sefydliad, yn briod, yn aelod o deulu neu'n ffrind i'r landlord neu'n asiant masnachol.

* Oni bai bod eithriad wedi'i roi gan Rhentu Doeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth am yr eithriadau a fydd yn cael eu hystyried ar gael ar dudalen 5.

Disgrifiadau a Gofynion Mesurau Diogelu Busnes

Mesur Diogelu Busnes	Disgrifiad	Gofynion Rhentu Doeth Cymru
Diogelu Arian Cleientiaid	Mae hwn yn fath o yswiriant sy'n diogelu cleientiaid (fel arfer y landlord a'r tenant) os yw'r cwmni sy'n cadw'r arian yn mynd i'r wal neu'n cam-drin yr arian. Mae arian cleientiaid yn yr amgylchiad hwn yn cynnwys: ❍ rhent, ❍ blaendaliadau neu ❍ arian arall (p'un ai ar ffurf arian parod, siec, trosglwyddiad electronig) y mae asiant yn ei ddal neu'n ei dderbyn, ar gyfer neu gan gleient, ac nad yw'n ddyledus yn syth ac yn daladwy ar gais i'r asiant ar gyfer ei gyfrif ei hun.	Mae angen i'r asiant sicrhau bod y mesur diogelu busnes hwn ar waith drwy gydol cyfnod ei drwydded. Rhaid i'r asiant gyflwyno tystiolaeth bod ganddo fesur diogelu arian cleientiaid dilys ar waith wrth wneud cais am drwydded asiant Rhentu Doeth Cymru* ac yn flynyddol ar ôl hynny, sy'n profi bod gan y **drwydded asiant** yn benodol fesur diogelu arian cleientiaid yn yr enw cywir. Gall tystiolaeth ddigonol gynnwys dogfennau polisi, atodlen neu dystysgrif yswiriant. Fodd bynnag, rhaid i'r dystiolaeth nodi enw'r trwyddedai a bod yn gyfredol. Rhaid i'r asiant arddangos tystiolaeth o'i ardystiad cyfredol a dilys ym mhob eiddo lle mae'r trwyddedai'n cyflawni gweithgareddau gosod a/neu reoli ac ar ei wefan a rhaid iddo ei rhoi i unrhyw berson ar gais. Rhaid i'r asiant ychwanegu enw ei ddarparwr diogelu arian cleientiaid at ei restr gyhoeddedig o ffioedd (os oes angen cyhoeddi ffioedd dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015). Bydd dolen i wiriwr asiant eiddo Tîm yr Asiantaeth Ystadau a Gosod Safonau Masnach Cenedlaethol ar y gofrestr gyhoeddus, a fydd, pan gaiff ei chlicio, yn dangos a oes gan yr asiant fesur diogelu arian cleientiaid cyfredol ar waith. *Byddai cyflwyno cais am drwydded asiant heb dystiolaeth bod mesur diogelu arian cleientiaid ar waith yn golygu bod y cais yn anghyflawn, oni bai bod eithriad wedi'i roi.

Mesur Diogelu Busnes	Disgrifiad	Gofynion Rhentu Doeth Cymru
Yswiriant Indemniad Proffesiynol	Mae'r yswiriant hwn yn cynnwys costau cyfreithiol amddiffyn hawliad yn erbyn asiant, ynghyd ag iawndal sy'n daladwy i gleient, tenant a/neu drydydd parti er mwyn gwneud yn iawn am y camgymeriad pe bai'r asiant yn torri dyletswydd contract broffesiynol (e.e. drwy roi gwybodaeth anghywir) y mae'r cleient, y tenant a/neu'r trydydd parti yn flin amdano. Mae Yswiriant Indemniad Proffesiynol ar gael yn eang yn y sector preifat.	Mae angen i'r asiant sicrhau bod yswiriant indemniad proffesiynol ar waith drwy gydol cyfnod ei drwydded. Rhaid i'r asiant gyflwyno tystiolaeth bod ganddo yswiriant indemniad proffesiynol dilys ar waith wrth wneud cais am drwydded asiant Rhentu Doeth Cymru* ac yn flynyddol ar ôl hynny, sy'n profi bod gan y **drwydded asiant** yn benodol yswiriant indemniad proffesiynol yn yr enw cywir. Gall tystiolaeth ddigonol gynnwys dogfennau polisi, atodlen neu dystysgrif yswiriant. Fodd bynnag, rhaid i dystiolaeth nodi enw'r trwyddedai, nodi bod yr yswiriant indemniad proffesiynol yn cwmpasu'r gweithgareddau gosod a rheoli y mae'r asiant yn eu cyflawni, nodi swm yr yswiriant indemniad proffesiynol a bod yn gyfredol. Rhaid i'r yswiriant indemniad proffesiynol yswirio'r **gweithgareddau gosod a rheoli** y mae'r asiant yn eu cyflawni. Er enghraifft, os yw'r polisi dim ond yn nodi *gwaith asiantaeth eiddo, syrfëwr ac ati*, ni fydd yn ddigon. Mae'r lefel ofynnol o yswiriant yn seiliedig ar bortffolio cyfunol asiant o eiddo a osodir ac a reolir: ❍ **100 eiddo neu lai - £100,000** ❍ **101 eiddo neu fwy - £500,000** Rhaid i'r asiant arddangos tystiolaeth o'i ardystiad cyfredol a dilys ym mhob eiddo lle mae'r trwyddedai'n cyflawni gweithgareddau gosod a/neu reoli ac ar ei wefan a rhaid iddo ei rhoi i unrhyw berson ar gais. Gall yr asiant lanlwytho manylion ei yswiriant indemniad proffesiynol ar ei gyfrif asiant Rhentu Doeth Cymru fel bod y dyddiad dod i ben yn cael ei arddangos ar Gofrestr Gyhoeddus Rhentu Doeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol. *Byddai cyflwyno cais am drwydded asiant heb dystiolaeth bod yswiriant indemniad proffesiynol ar waith yn golygu bod y cais yn anghyflawn, oni bai bod eithriad wedi'i roi.

Mesur Diogelu Busnes	Disgrifiad	Gofynion Rhentu Doeth Cymru
Aelodaeth o Gynllun Gwneud Iawn Gosod a Rheoli Annibynnol (fel y'i derbynnir gan Rhentu Doeth Cymru)	Mae cynlluniau gwneud iawn yn darparu gwasanaeth gwneud iawn annibynnol a diduedd i ddatrys anghydfodau â defnyddwyr gwasanaeth yr asiant sy'n cynnwys darpar denantiaid, tenantiaid a landlordiaid.	Mae angen i'r asiant gael a chynnal, drwy gydol cyfnod ei drwydded, aelodaeth o gynllun gwneud iawn gosod a rheoli annibynnol (fel y'i cymeradwyir gan Rhentu Doeth Cymru). Rhaid i'r asiant gyflwyno tystiolaeth ei fod yn aelod o gynllun gosod a rheoli annibynnol wrth wneud cais am drwydded asiant Rhentu Doeth Cymru* ac yn flynyddol ar ôl hynny, sy'n profi bod gan y **trwyddedai asiant** yn benodol aelodaeth o gynllun gosod a rheoli annibynnol yn yr enw cywir. Gall tystiolaeth ddigonol gynnwys dogfennau polisi, atodlen neu dystysgrif yswiriant. Fodd bynnag, rhaid i'r dystiolaeth nodi enw'r trwyddedai, y gweithgareddau gosod preswyl a'r canghennau cysylltiedig. Rhaid i'r aelodaeth fod ar gyfer **gweithgareddau gosod preswyl** a rhaid iddi gynnwys **pob cangen** y mae'r asiant yn cwblhau gweithgareddau gosod a rheoli ohoni. Rhaid i'r asiant arddangos tystiolaeth o'i ardystiad cyfredol a dilys ym mhob eiddo lle mae'r trwyddedai'n cyflawni gweithgareddau gosod a/neu reoli ac ar ei wefan a rhaid iddo ei rhoi i unrhyw berson ar gais. Rhaid i'r asiant ychwanegu datganiad at ei restr gyhoeddedig o ffioedd sy'n nodi bod yr asiant yn aelod o gynllun gwneud iawn ac sy'n rhoi enw'r cynllun. Rhaid i'r asiant ychwanegu enw darparwr ei gynllun gwneud iawn at ei restr gyhoeddedig o ffioedd (os oes angen cyhoeddi ffioedd dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015). Bydd dolen i wiriwr asiant eiddo Tîm yr Asiantaeth Ystadau a Gosod Safonau Masnach Cenedlaethol ar y gofrestr gyhoeddus, a fydd, pan gaiff ei chlicio, yn dangos a yw'r asiant yn aelod o gynllun gwneud iawn. *Byddai cyflwyno cais am drwydded asiant heb dystiolaeth o aelodaeth o gynllun gosod a rheoli annibynnol yn golygu bod y cais yn anghyflawn.

Darparwyr Mesurau Diogelu Busnes

Dylai'r tablau isod eich helpu i gael y mesurau diogelu busnes canlynol:

- Diogelu Arian Cleientiaid
- Yswiriant Indemniad Proffesiynol
- Aelodaeth o Gynllun Gwneud Iawn Gosod a Rheoli Annibynnol (fel y'i derbynnir gan Rhentu Doeth Cymru)

Nid ystyrir y wybodaeth yn y tablau'n gynhwysfawr ac nid yw Rhentu Doeth Cymru yn argymell y cwmnïau a restrir yn benodol - fe'i darperir i'ch cynorthwyo yn eich ymchwil i ddod o hyd i'r darparwr mesurau diogelu busnes gorau ar eich cyfer chi.

Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol

Gall y cyrff proffesiynol canlynol eich cynorthwyo i gael mesurau diogelu busnes yn ymwneud â diogelu arian cleientiaid, yswiriant indemniad proffesiynol ac aelodaeth o gynllun gwneud iawn.

Cyrff Proffesiynol Asiantau Gosod a Rheoli
Propertymark
UKALA – The UK Association of Letting Agents
Safeagent
Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig

Sylwer:

Os oes gennych aelodaeth a reoleiddir o unrhyw un o'r cyrff proffesiynol uchod, efallai bod y mesurau diogelu busnes hyn ar waith gennych yn barod. Byddem yn eich cynghori i gysylltu â'r corff proffesiynol yr ydych yn aelod ohono i gael gwybod a oes gennych y mesurau diogelu busnes hyn yn barod ac a ydynt yn bodloni gofynion Rhentu Doeth Cymru.

Rhaid i aelodau gyflwyno tystiolaeth o hyd bod ganddynt bob un o'r tri mesur diogelu ar waith i Rhentu Doeth Cymru.

Darparwyr Mesurau Diogelu Busnes

Nid ystyrir y wybodaeth yn y tablau'n gynhwysfawr ac nid yw Rhentu Doeth Cymru yn argymell y cwmnïau a restrir yn benodol - fe'i darperir i'ch cynorthwyo yn eich ymchwil i ddod o hyd i'r darparwr mesurau diogelu busnes gorau ar eich cyfer chi.

Mesur Diogelu Busnes	Manylion y Darparwr
Diogelu Arian Cleientiaid	❍ **Client Money Protect** ❍ **Propertymark** ❍ **UKALA** ❍ **Safeagent** ❍ **Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig** ❍ **Mint Insurance Brokers Ltd** ❍ **Money Shield** *Bydd gan ddarparwyr mesurau diogelu arian cleientiaid eu gofynion eu hunain y bydd rhaid i ymgeisydd eu bodloni cyn eu bod yn fodlon diogelu arian cleientiaid, er enghraifft, prawf o gyfrif/cyfrifon cleientiaid ar wahân ar gyfer rhenti a blaendaliadau.*
Yswiriant Indemniad Proffesiynol	Mae Yswiriant Indemniad Proffesiynol ar gael yn eang yn y sector preifat.
Cynlluniau Gwneud Iawn Gosod a Rheoli Annibynnol a dderbynnir gan Rhentu Doeth Cymru	❍ Cynllun yr Ombwdsmon Eiddo ❍ Y Cynllun Gwneud Iawn Eiddo

Eithriadau Mesurau Diogelu Busnes

Mae'r eithriadau i'r amod trwydded 'Mesurau Diogelu Busnes' y gellir gwneud cais amdanynt wedi'u rhestru yn y tablau canlynol a byddant yn cael eu cymeradwyo dim ond ar ôl i Rhentu Doeth Cymru gynnal asesiad risg a barnu bod y risg i landlordiaid cleient a thenantiaid yn isel.

Mewn rhai amgylchiadau, bydd Rhentu Doeth Cymru yn ystyried cais am eithriad i'r gofyniad i gael a chynnal, drwy gydol cyfnod y drwydded:

- fesurau diogelu arian cleientiaid,
- yswiriant indemniad proffesiynol, a/neu
- aelodaeth o gynllun gwneud iawn (fel y'i cymeradwyir gan Rhentu Doeth Cymru)

Nid yw cais yn gwarantu y bydd eithriad ar gyfer unrhyw un neu bob un o'r tri mesur diogelu busnes a nodir yn cael ei gymeradwyo.

Cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru os ydych yn credu bod gennych hawl i wneud cais am eithriad.

Cofiwch y gallai eithriadau a gofynion fod wedi newid ers eich cais diwethaf am drwydded.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i wrthod cais am eithriad i'r amod trwydded mesurau diogelu busnes ac i dynnu'r eithriad yn ôl ar unrhyw adeg cyn, yn ystod neu ar ôl adnewyddu tymor y drwydded. Bydd unrhyw eithriad a roddir yn cael ei adolygu ar adeg unrhyw newid mewn amgylchiadau, a allai arwain at y gofyniad i sicrhau bod y mesurau diogelu busnes yn cael eu hadfer.

Wrth wneud cais am eithriad, byddai angen i chi gadarnhau eich amgylchiadau a dylid nodi ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth i Rhentu Doeth Cymru (yr awdurdod trwyddedu sengl) sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac y gwyddoch ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol neu rydych chi'n ddi-hid ynghylch a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.

Eithriadau Mesurau Diogelu Busnes

Amgylchiad Eithrio Asiant	Gofyniad
Eithriad ar gyfer Arian Cleientiaid yn Unig	
Nid yw'r asiant yn trin UNRHYW arian cleientiaid. *Mae arian cleientiaid yn cynnwys unrhyw arian a dderbynnir, neu a ddelir, ar gyfer neu gan gleientiaid nad yw'n daladwy yn syth i'r asiant. Gall enghreifftiau o arian cleientiaid gynnwys* ***rhent, blaendaliadau, ffioedd ychwanegol, taliadau gwasanaeth*** *ac ati.*	Bydd angen i'r asiant lofnodi datganiad i gadarnhau nad yw'n trin arian cleientiaid. Os gwneir cais am yr eithriad hwn ac y caiff y cais ei gymeradwyo, bydd y gofyniad i gael yswiriant indemniad proffesiynol ac aelodaeth o gynllun gwneud iawn yn parhau.
Eithriad Dros Dro ar gyfer Busnes Newydd	
Nid yw'r asiant yn gosod nac yn rheoli unrhyw eiddo yng Nghymru ar gyfer landlord (busnes newydd) ar hyn o bryd. *Rhoddir eithriad dim ond nes bydd yr asiant yn dechrau gweithgareddau gosod a rheoli.*	Bydd angen i'r asiant lofnodi datganiad i gadarnhau nad yw'n rheoli eiddo ar ran pobl eraill ar hyn o bryd. Bydd angen i'r asiant sicrhau bod y mesurau diogelu busnes ar waith o fewn 10 wythnos i'w weithgareddau gosod a rheoli ddechrau, a bydd angen i'r asiant hefyd hysbysu Rhentu Doeth Cymru yn syth wedi dechrau unrhyw weithgareddau gosod a/neu reoli.
Eithriad - Teulu	
Mae'r asiant unigol yn gosod a/neu'n rheoli eiddo ar gyfer aelodau o'r teulu yn unig (teulu fel y'i diffinnir dan Adran 258, Deddf Tai 2004), ac ❍ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu gosod a'u rheoli'n llai na 5 ac mae cyfanswm nifer y tenantiaethau fesul eiddo yn llai na 5, neu ❍ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu rheoli'n unig yn llai na 5 ac mae cyfanswm nifer y tenantiaethau fesul eiddo yn llai na 5, neu ❍ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu gosod yn unig yn 8 neu lai ac nid oes unrhyw weithgareddau rheoli yn cael eu cwblhau.	Bydd angen i'r asiant gadarnhau ei berthynas deuluol â phob un o'r landlordiaid cleient. Yr eithriad y gellir ei gymhwyso yn yr amgylchiad hwn yw diogelu arian cleientiaid. Os gwneir cais am yr eithriad hwn ac y caiff y cais ei gymeradwyo, bydd y gofyniad i gael yswiriant indemniad proffesiynol ac aelodaeth o gynllun gwneud iawn yn parhau.

Eithriadau Mesurau Diogelu Busnes

Amgylchiad Eithrio Asiant	Gofyniad
Eithriad - 2 neu Lai o Eiddo ar gyfer 1 Landlord nad yw'n Berthynas	
Mae'r asiant yn gosod ac yn rheoli 2 neu lai o eiddo ar gyfer un trefniant landlord nad yw'n berthynas. *Gall 'trefniant landlord' olygu naill ai cofrestriad unigol neu un cofrestriad ar y cyd.*	Bydd angen i'r asiant lofnodi datganiad i gadarnhau: ❍ na fydd yn cyflawni unrhyw weithgareddau gosod a rheoli mewn unrhyw eiddo ychwanegol yn ystod cyfnod ei drwydded. Bydd angen i bob landlord cleient (a enwir yn y cofrestriad) ddarllen a llofnodi datganiad: ❍ i gadarnhau ei fod yn cydsynio i hepgor y gofyniad i'r asiant gael y mesurau diogelu busnes diogelu arian cleientiaid ac yswiriant indemniad proffesiynol. **Sylwer:** Dim ond os yw'r landlord yn darparu ei yswiriant adeilad ei hun sy'n cynnwys yswiriant atebolrwydd trydydd parti (isafswm yswiriant o £1 miliwn) yr ystyrir hepgor y gofyniad i gael yswiriant indemniad proffesiynol. Os gwneir cais am yr eithriad hwn ac y caiff y cais ei gymeradwyo, bydd y gofyniad i gael aelodaeth o gynllun gwneud iawn yn parhau.

Eithriadau Mesurau Diogelu Busnes

Amgylchiad Eithrio Asiant	Gofyniad
Eithriad – Asiant Unigol - Unig Gyfarwyddwr Cwmni/Cyfarwyddwyr Cwmni sy'n Aelodau o'r Teulu	
Mae'r asiant unigol yn gosod ac yn rheoli eiddo ar gyfer hyd at 2 gwmni landlord, lle: ❍ mai'r asiant yw cyfarwyddwr y cwmni/cwmnïau landlord, ac ❍ mae unrhyw gyfarwyddwyr eraill y cwmni landlord yn aelodau o'r teulu (teulu fel y'i diffinnir dan Adran 258, Deddf Tai 2004), ac ○ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu gosod a'u rheoli'n llai na 5 ac mae cyfanswm nifer y tenantiaethau fesul eiddo yn llai na 5, neu ○ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu rheoli'n unig yn llai na 5 ac mae cyfanswm nifer y tenantiaethau fesul eiddo yn llai na 5, neu ○ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu gosod yn unig yn 8 neu lai ac nid oes unrhyw weithgareddau rheoli yn cael eu cwblhau.	Bydd gwiriadau'n cael eu cwblhau i sicrhau mai'r asiant unigol yw cyfarwyddwr y cwmni landlord a bod unrhyw gyfarwyddwyr ychwanegol yn aelodau o'r teulu. Bydd angen i'r asiant gadarnhau ei berthynas deuluol â phob un o'r landlordiaid cleient. Yr eithriad y gellir ei gymhwyso yn yr amgylchiad hwn yw diogelu arian cleientiaid ac yswiriant indemniad proffesiynol. Bydd angen i'r asiant gyflwyno tystiolaeth o yswiriant adeilad cyfredol a dilys y cwmni landlord sy'n cynnwys yswiriant atebolrwydd trydydd parti (isafswm yswiriant o £1 miliwn). Gall y dystiolaeth gynnwys dogfennau polisi, atodlen neu dystysgrif yswiriant. Os gwneir cais am yr eithriad hwn ac y caiff y cais ei gymeradwyo, bydd y gofyniad i gael aelodaeth o gynllun gwneud iawn yn parhau.

Eithriadau Mesurau Diogelu Busnes

Amgylchiad Eithrio Asiant	Gofyniad
Eithriad – Asiant Cwmni - Unig Gyfarwyddwr Cwmni/Cyfarwyddwyr sy'n Aelodau o'r Teulu	
Mae'r asiant cwmni'n gosod ac yn rheoli eiddo ar gyfer landlord unigol lle: ❍ mai'r landlord unigol yw cyfarwyddwr y cwmni asiant, ac ❍ mae unrhyw gyfarwyddwyr eraill y cwmni landlord yn aelodau o'r teulu (teulu fel y'i diffinnir dan Adran 258, Deddf Tai 2004), ac ○ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu gosod a'u rheoli'n llai na 5 ac mae cyfanswm nifer y tenantiaethau fesul eiddo yn llai na 5, neu ○ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu rheoli'n unig yn llai na 5 ac mae cyfanswm nifer y tenantiaethau fesul eiddo yn llai na 5, neu ○ mae cyfanswm nifer yr eiddo sy'n cael eu gosod yn unig yn 8 neu lai ac nid oes unrhyw weithgareddau rheoli yn cael eu cwblhau.	Bydd gwiriadau'n cael eu cwblhau i sicrhau bod gan yr asiant cwmni gyfarwyddwyr sy'n gweithredu fel y landlord unigol a bod unrhyw gyfarwyddwyr ychwanegol yn aelodau o'r teulu. Bydd angen i'r asiant gadarnhau perthynas deuluol y cyfarwyddwyr â phob un o'r landlordiaid cleient. Yr eithriad y gellir ei gymhwyso yn yr amgylchiad hwn yw diogelu arian cleientiaid ac yswiriant indemniad proffesiynol. Bydd angen i'r asiant gyflwyno tystiolaeth o yswiriant adeilad cyfredol a dilys y landlord sy'n cynnwys yswiriant atebolrwydd trydydd parti (isafswm yswiriant o £1 miliwn). Gall y dystiolaeth gynnwys dogfennau polisi, atodlen neu dystysgrif yswiriant. Os gwneir cais am yr eithriad hwn ac y caiff y cais ei gymeradwyo, bydd y gofyniad i gael aelodaeth o gynllun gwneud iawn yn parhau.